

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref : RE/278/20

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Awst 2020

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr ynghylch Rheoliadau Cerbydau Trafnidiaeth Ffordd Glanach (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

Mae'n ddrwg gen i nad oedd y datganiad ysgrifenedig cysylltiedig yn cynnwys y manylion yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i'w derbyn wrth graffu ar gydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer yr Offeryn Statudol hwnnw.

O safbwynt tynnu'r rheoliadau yn ôl a'u hailosod, mae swyddogion yr Adran Drafnidiaeth wedi cadarnhau bod hyn o ganlyniad i gyfeiriad ar gam yn y Memorandwm Esboniadol yn hytrach nag unrhyw newid i'r Rheoliadau eu hunain.

Yn olaf, o safbwynt effaith y Rheoliadau ar bwerau deddfwriaethol y Senedd neu bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru, nid yw'r Offeryn Statudol ond yn gwneud diwygiadau technegol er mwyn cywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n deillio o'r ffaith bod y Deyrnas Unedig wedi ymadael â'r UE. Nid yw'n trosglwyddo unrhyw swyddogaethau. O ganlyniad cadarnheir nad yw'r Offeryn Statudol, yn unol â Rheol Sefydlog 30C, 3(ii), yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn helpu i ateb unrhyw gwestiynau yr oedd gan y Pwyllgor ynghylch y Rheoliadau.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.